Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Richard Williams
Llywodraeth Cymru: Yr Amgylchedd – Ynni, Dŵr, Llifogydd
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

9 Chwefror 2018

Annwyl Richard

**Deddf Draenio Tir 1991**
**Cynllun ar gyfer newid ffiniau Ardaloedd Draenio Mewnol Afon Conwy, Cors Ardudwy, Glaslyn a Phensyflog, Gwent, Harlech a Maentwrog, Llanfrothen, Mawddach ac Wnion, a Powysland (Cymru).**

Yn unol ag Adran 3 (1) Deddf Draenio Tir 1991 (y **Ddeddf**), mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru (**Cyfoeth Naturiol Cymru**) wedi paratoi cynllun (**y Cynllun**), y mae bellach yn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo, ar gyfer newid ffiniau Ardaloedd Draenio Mewnol Afon Conwy, Cors Ardudwy, Glaslyn a Phensyflog, Gwent, Harlech a Maentwrog, Llanfrothen, Mawddach ac Wnion, a Powysland (Cymru).

Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

1 tynnu pedair llain o dir o Ardal Draenio Mewnol Afon Conwy;

2 tynnu un llain o dir o Ardal Draenio Mewnol Cors Ardudwy;

3 tynnu un llain o dir o Ardal Draenio Mewnol Glaslyn a Phensyflog;

4 tynnu pedair llain o dir o Ardal Draenio Mewnol Gwent ac ychwanegu un llain ati;

5 tynnu chwe llain o dir o Ardal Draenio Mewnol Harlech a Maentwrog;

6 tynnu un llain o dir o Ardal Draenio Mewnol Llanfrothen;

7 tynnu 18 llain o dir o Ardal Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion; a

8 thynnu un llain o dir o Ardal Draenio Mewnol Powysland (Cymru) ac ychwanegu un llain ati.

**Cefndir polisi i'r Cynllun**

Pan wnaed y penderfyniad gan Lywodraeth Cymru mai Cyfoeth Naturiol Cymru a fyddai'n gweinyddu'r holl Ardaloedd Draenio Mewnol yng Nghymru, fe'i cyfarwyddwyd i adolygu ffiniau'r ardaloedd hynny. Yn unol â hyn, rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Ionawr 2017, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru adolygiad o dan Adran 2 y Ddeddf o ffiniau 13[1] o'r Ardaloedd Draenio Mewnol yng Nghymru.

O ganlyniad i'r adolygiad hwnnw ac yng ngoleuni'r ymatebion i ymarfer ymgynghori canlynol (gweler isod), mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig newid ffiniau wyth Ardal Draenio Mewnol yng Nghymru (Afon Conwy, Cors Ardudwy, Glaslyn a Phensyflog, Gwent, Harlech a Maentwrog, Llanfrothen, Mawddach ac Wnion, a Powysland (Cymru)). Bydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu gan y Cynllun.

Cynigir y Cynllun hwn oherwydd y canfuwyd bod ansawdd y tir neu'r defnydd ohono ym mhob un o'r Ardaloedd Draenio Mewnol wedi newid dros amser, ac nad oes angen bellach y Bwrdd Draenio Mewnol i reoli lefelau dŵr yn benodol ar leiniau o dir yr oedd angen iddynt fod yn rhan o Ardal Draenio Mewnol ar un adeg.

Yn achos dau leoliad, mae'r defnydd o'r tir wedi newid i'r graddau y mae ardaloedd ychwanegol yn haeddu cael eu cynnwys yn yr Ardal Draenio Mewnol.

**Ymgynghoriad**

Cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru ymarfer ymgynghori ynghylch ei gynigion rhwng 6 Mawrth a 17 Ebrill 2017. Roedd y broses hon yn cynnwys ymgynghori â'r holl dalwyr ardreth a thalwyr ardollau arbennig o fewn yr Ardaloedd Draenio Mewnol a restrir uchod, yn ogystal ag Ardal Draenio Mewnol Afon Ganol, mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau o fewn pob Ardal Draenio Mewnol. Rhoddir manylion y cynllun arfaethedig hefyd i'r awdurdodau lleol a'r undebau ffermio.

Caniatawyd cyfnod o un mis ar gyfer ymatebion a derbyniwyd cyfanswm o 21 ymateb, oddi wrth 16 o sefydliadau a phartïon â diddordeb.

Roedd y prif bryderon a leisiwyd gan ymatebwyr yn seiliedig ar berygl llifogydd ac effaith draenio tir ar ecosystemau sensitif.

Mewn perthynas ag Ardal Draenio Mewnol Afon Ganol, bu i un ymgynghorai anghytuno â chynnig Cyfoeth Naturiol Cymru i dynnu tir o'r Ardal Draenio Mewnol, gan awgrymu y byddai'n well pe bai gwaith cynnal a chadw sydd ei angen i fynd i'r afael â materion llifogydd yn yr ardal yn cael ei gydlynu gan yr Ardal Draenio Mewnol. Cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru â'r rhesymu hwn ac, o'r herwydd, nid yw'r Cynllun yn gwneud unrhyw newidiadau i'r Ardal Draenio Mewnol hon.

Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried yr holl ymatebion a dod i'r casgliad mai'r cam gweithredu priodol oedd addasu ffiniau perthnasol yr Ardaloedd Draenio Mewnol yn seiliedig ar yr ymatebion a

[1] Mae cyfanswm o 14 Ardal Draenio Mewnol yng Nghymru, ond penderfynwyd yn gynnar eithrio Ardal Draenio Mewnol Cors Fochno o'r adolygiad oherwydd yr astudiaethau parhaus o'r gwaith o reoli Gwarchodfa Biosffer UNESCO, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig Cors Fochno, a leolir o fewn yr Ardal Draenio Mewnol hon.

dderbyniwyd, a chyflwyno cynllun ffurfiol ar gyfer newid ffiniau'r Ardaloedd Draenio Mewnol i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

Mae copi o'r adroddiad ymgynghori sy'n gysylltiedig â'r ymarfer hwn wedi'i amgáu gyda'r llythyr hwn.

**Deddfwriaeth berthnasol**

Effaith y Cynllun, os yw'n cael ei gymeradwyo, fyddai newid ffiniau Ardaloedd Draenio Mewnol Afon Conwy, Cors Ardudwy, Glaslyn a Phensyflog, Gwent, Harlech a Maentwrog, Llanfrothen, Mawddach ac Wnion, a Powysland (Cymru). I gynorthwyo gweinidogion, ceir mynegai i'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei heffeithio gan y cynigion o fewn atodlen y llythyr hwn. Rydym hefyd yn amgáu copïau o'r gorchmynion perthnasol.

Er inni chwilio'n drwyadl, nid oedd yn bosibl dod o hyd i gopi o Orchymyn Bwrdd Dalgylch Afonydd Sir Feirionnydd (Ardal Draenio Mewnol Cors Ardudwy) 1939, na gorchymyn arall mewn perthynas â'r Ardal Draenio Mewnol hon, yr ydym yn credu iddo gael ei wneud yn 1942, yn trosglwyddo pwerau'r Bwrdd Draenio Mewnol ar y pryd i'r Bwrdd Dalgylch Afonydd ar y pryd. Yn lle hyn, ac i gadarnhau bodolaeth a lleoliad Ardal Draenio Mewnol Cors Ardudwy, rydym yn amgáu gohebiaeth sy'n cyfeirio at y trosglwyddo yn 1942 a chopi o'r map a fyddai wedi cyd-fynd â Gorchymyn 1939.

**Hysbysebu'r cynllun arfaethedig**

Yn unol â gofynion Adran 3 (4) y Ddeddf, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi anfon copïau o'r Cynllun ar gyfer Ardaloedd Draenio Mewnol Afon Conwy, Cors Ardudwy, Glaslyn a Phensyflog, Gwent, Harlech a Maentwrog, Llanfrothen, Mawddach ac Wnion, a Powysland (Cymru) i'r awdurdodau canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Awdurdod Harbwr Conwy
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Ymddiriedolwyr Harbwr Caerloyw
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Cyngor Sir Powys

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi trefnu i gyflwyniad y Cynllun gael ei hysbysebu ar ei wefan yn 12 Chwefror 2018 yn https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/consultations/our-own-consultations-closed/internal-drainage-districts-boundary-review-consultation/?lang=cy, mewn siopau lleol o fewn neu'n agos i'r Ardaloedd Draenio Mewnol sy'n cael eu heffeithio, ac yn Llyfrgell Dolgellau. Mae copi o'r hysbysiad, sydd yn Gymraeg a Saesneg, wedi'i amgáu gyda'r llythyr hwn.

Bydd y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, felly, yn dod i ben ar 12 Mawrth 2018.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r cynigion, cysylltwch â Neil Evans (CNC) ar 03000 654 270.

Yn gywir

**Bircham Dyson Bell**
Asiantiaid Seneddol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru
T +44 (0)20 7783 3792
M +44 (0)7545 937545
F +44 (0)20 7233 1351
E laurathornton@bdb-law.co.uk

<u>Wedi'u hamgáu</u>

Cynllun wedi'i selio yn Gymraeg a Saesneg gyda mapiau cysylltiedig

Copi o'r hysbysiad (yn Gymraeg a Saesneg)

Adroddiad ymgynghori

Copïau o'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei heffeithio gan y Cynllun

Gohebiaeth a map mewn perthynas ag Ardal Draenio Mewnol Cors Ardudwy

**Atodlen – Y ddeddfwriaeth sy'n cael ei heffeithio**

| **Gorchymyn** | **Prif ddarpariaethau** | **Effaith y cynllun cyfredol** |
|---|---|---|
| Gorchymyn Draenio Afon Conwy 1922 | Creu Ardal Draenio Mewnol o dan Ddeddfau Draenio Tir 1861 a 1918.<br><br>Creu a phenodi Bwrdd Draenio Mewnol. | Bydd ffiniau'r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |
| Gorchymyn Draenio Llanfrothen 1928 | Creu Ardal Draenio Mewnol o dan Ddeddfau Draenio Tir 1861 a 1918.<br><br>Creu a phenodi Bwrdd Draenio Mewnol. | Bydd ffiniau'r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |
| Gorchymyn Bwrdd Dalgylch Afonydd Sir Feirionydd (Ardal Draenio Mewnol Cors Ardudwy) 1939 | Tybiwyd i'r gorchymyn hwn greu Ardal Draenio Mewnol a chreu a phenodi Bwrdd Draenio Mewnol. | Bydd ffiniau'r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |
| Gorchymyn Bwrdd Dalgylch Afonydd Sir Meirionnydd (Ardal Draenio Mewnol Harlech a Maentwrog) 1940 | Newid ffiniau Ardal Draenio Cors Harlech, ailgyfansoddi Awdurdod Draenio Cors Harlech o dan Adran 4 (1) (b) Deddf Draenio Tir 1930.<br><br>Creu Ardal Draenio Mewnol newydd.<br><br>Creu a phenodi Bwrdd Draenio Mewnol. | Bydd ffiniau'r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |
| Gorchymyn Trosglwyddo mewn perthynas ag Ardal Draenio Mewnol Cors Ardudwy 1942 | Tybiwyd i'r gorchymyn hwn drosglwyddo pwerau Bwrdd Draenio Mewnol Cors Ardudwy i'r Bwrdd Dalgylch Afonydd. | Bydd ffiniau'r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |
| Gorchymyn Bwrdd Dalgylch Afonydd Sir Gaernarfon (Ardal Draenio Mewnol Llanfrothen) 1943 | Newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Llanfrothen ac ailgyfansoddi Bwrdd Draenio Mewnol Llanfrothen o dan Adran 4 (1) (b) Deddf Draenio Tir 1930. | Bydd ffiniau'r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |
| Gorchymyn Bwrdd Dalgylch Afonydd Sir Feirionnydd (Bwrdd Draenio Mewnol Mawddach ac | Creu Ardal Draenio Mewnol o dan Adran 4 (1) (b) Deddf Draenio Tir 1930. | Bydd ffiniau'r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |

| | | |
|---|---|---|
| Wnion) 1947 | Creu a phenodi Bwrdd Draenio Mewnol. | |
| Gorchymyn Bwrdd Dalgylch Afonydd Sir Feirionnydd (Ailgyfansoddi Bwrdd Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion) 1949 | Ailgyfansoddi Bwrdd Draenio Mewnol o dan Adran 4 (1) (b) Deddf Draenio Tir 1930 a phenodi'r wyth aelod gwreiddiol. | Bydd ffiniau’r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |
| Gorchymyn Bwrdd Afonydd Gogledd-orllewin Cymru (Trosglwyddo Pwerau Bwrdd Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion) 1950 | Trosglwyddo pwerau'r Bwrdd Draenio Mewnol, gan benodi Bwrdd Afonydd Gogledd-orllewin Cymru fel y Bwrdd Draenio Mewnol o dan Adran 11 Deddf Draenio Tir 1930. | Bydd ffiniau’r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |
| Gorchymyn Bwrdd Afonydd Gogledd-orllewin Cymru (Trosglwyddo Pwerau Bwrdd Draenio Mewnol Llanfrothen) 1951 | Trosglwyddo pwerau'r Bwrdd Draenio Mewnol, gan benodi Bwrdd Afonydd Gogledd-orllewin Cymru fel y Bwrdd Draenio Mewnol o dan Adran 11 Deddf Draenio Tir 1930. | Bydd ffiniau’r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |
| Gorchymyn Bwrdd Afonydd Gogledd-orllewin Cymru (Trosglwyddo Pwerau Bwrdd Draenio Harlech a Maentwrog) 1951 | Trosglwyddo pwerau'r Bwrdd Draenio Mewnol, gan benodi Bwrdd Afonydd Gogledd-orllewin Cymru fel y Bwrdd Draenio Mewnol o dan Adran 11 Deddf Draenio Tir 1930. | Bydd ffiniau’r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |
| Gorchymyn Bwrdd Afonydd Gogledd-orllewin Cymru (Trosglwyddo Pwerau Bwrdd Draenio Afon Conwy) 1953 | Trosglwyddo pwerau'r Bwrdd Draenio Mewnol, gan benodi Bwrdd Afonydd Gogledd-orllewin Cymru fel y Bwrdd Draenio Mewnol o dan Adran 11 Deddf Draenio Tir 1930. | Bydd ffiniau’r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |
| Gorchymyn Bwrdd Afonydd Gwynedd (Ardal Draenio Mewnol Glaslyn a Phensyflog) 1964 | Creu Ardal Draenio Mewnol o dan Adran 4 (3) a 13 Deddf Draenio Tir 1930.<br><br>Creu a phenodi Bwrdd Draenio Mewnol. | Bydd ffiniau’r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |
| Gorchymyn Ardal Draenio Mewnol Powysland (Diddymu) 2015 | Diddymu Ardal Draenio Mewnol Powysland a chreu Ardal Draenio Mewnol newydd sy'n hollol o fewn Cymru o dan Adran 3 (1) (a) a 4 (3) Deddf | Bydd ffiniau’r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |

| | | |
|---|---|---|
| | Draenio Tir 1991. | |
| Gorchymyn Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a Chil-y-coed a Gwynllŵg (Diddymu) 2015 | Diddymu Ardaloedd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg a Rhannau Isaf Afon Gwy a chreu Ardal Draenio Mewnol gyfunol newydd o dan Adran 3 (1) (a) a 4 (3) Deddf Draenio Tir 1991. | Bydd ffiniau'r Ardal Draenio Mewnol yn cael eu diwygio. |